








# Perfformiad.Gorau@Abertawe

## Cynllun Gwella
## (Crynodeb)

## 2003/4



CITY AND COUNTY OF SWANSEA • DINAS A SIR ABERTAWE

Perfformiad.Gorau@Abertawe

# CYNLLUN GWELLA (CRYNODEB) 2003/4







## CYFLWYNIAD

**Dyma grynodeb o ail Gynllun Gwella statudol Dinas a Sir Abertawe. Mae copi llawn o'r Cynllun ar gael ar gais o Neuadd y Sir ac mae hefyd ar gael ar wefan y Cyngor. Mae'r Cynllun yn disgrifio'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r targedau (a gyhoeddwyd yng Nghynllun Gwella y llynedd), amrywiaeth y camau a gymerwyd hyd yn hyn a'r camau a gynlluniwyd ar gyfer y dyfodol gyda'r nod gyffredinol o wella perfformiad.**

Un o elfennau allweddol gwella perfformiad yw cyflwyno Perfformiad.Gorau@Abertawe yn 2003/04. Prif nod y fenter newydd hon yw y bydd y Cyngor yn un o'r awdurdodau lleol sy'n perfformio orau erbyn 2007. Mewn geiriau eraill, ein nod yw bod ymhlith y cynghorau gorau yn y DU – gan gymharu Abertawe â chwarter uchaf yr awdurdodau lleol sy'n perfformio orau. Mae gan Perfformiad.Gorau@Abertawe agwedd uchelgeisiol a modern. Mae'n delio â'n cryfderau a'n gwendidau er mwyn cyflwyno nodau gwleidyddol a chynllun corfforaethol y Cyngor.

Bydd mynediad i gwsmeriaid yn cael ei wella trwy greu un sianel i'r awdurdod lleol – porth Abertawe – ar gyfer delio â chwynion gan gwsmeriaid a cheisiadau am wasanaethau dros y ffôn, trwy alw heibio mewn siop dan yr unto neu ddefnyddio'r rhyngrwyd. Mae swydd newydd Pennaeth Gwasanaeth@Abertawe wedi cael ei chreu er mwyn sicrhau bod porth Abertawe yn cael ei sefydlu ac yn gweithredu'n llawn erbyn 2007.

Mae'r Cyngor wedi ymgymryd â Dadansoddiad Awdurdod Cyfan yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae hyn wedi cynnwys adolygu trefniadau rheolaeth gorfforaethol a pherfformiad y Cyngor ar draws ei holl wasanaethau. O'r dadansoddiad hwn, nodwyd camau gweithredu allweddol er mwyn gwella perfformiad y Cyngor ymhellach.

Fel Cyngor, mae gennym swm penodol o adnoddau o ran cyllid a gweithwyr. Er mwyn cael y gorau o'r rhain mae'n rhaid i ni wella ein galluoedd ac mae hyn yn cynnwys sicrhau bod recriwtio a hyfforddiant ar gyfer gweithwyr o'r safon uchaf a bod yr arweinyddiaeth a ddarperir gan reolwyr yn canolbwyntio ar wella gwasanaethau i'r cwsmer.

Fel Arweinydd a Phrif Weithredwr y Cyngor hwn, rydym yn ymroddedig i ddatblygu'r hyn y mae'r Cyngor eisoes yn ei wneud yn dda a chreu Cyngor sy'n perfformio'n rhagorol. Byddwn yn defnyddio technoleg newydd a thechnoleg sy'n datblygu ac yn trefnu ein hunain yn wahanol er mwyn sicrhau ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y cwsmer. Pan fyddwn yn gallu rhyddhau adnoddau, byddwn yn eu buddsoddi mewn gwasanaethau rheng flaen.



**LAWRENCE BAILEY – ARWEINYDD**



**TIM THOROGOOD – PRIF WEITHREDWR**



## CRYNODEB O'R PERFFORMIAD

**Mae Perfformiad.Gorau@Abertawe yn gosod y nod glir o gyflawni perfformiad yn y chwartel uchaf erbyn 2007. Bydd y meincnodau y byddwn yn eu defnyddio i fesur ein cynnydd yn cynnwys Awdurdodau Unedol yn Lloegr yn ogystal â Chynghorau yng Nghymru.**

Ar hyn o bryd mae 25% o'r dangosyddion perfformiad y gellir eu cymharu â Chynghorau Unedol eraill yn well neu'n hafal i'r perfformiad chwartel uchaf. Mae 35% yn well neu'n hafal i'r perfformiad ar gyfartaledd tra bo 40% yn waeth na'r cyfartaledd.

Mae'r meysydd y mae Abertawe yn rhagori ynddynt yn cynnwys:

- Canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 4 neu'n uwch ym mhrofion Mathemateg a Saesneg Cyfnod Allweddol 2
- Canran y disgyblion a waharddwyd yn barhaol sy'n mynychu mwy na 25 awr yr wythnos o addysg amgen
- Sefydlogrwydd lleoli plant sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod
- Cyfran yr anheddau anaddas yn y sector preifat a wnaed yn addas neu a ddymchwelwyd
- Canran yr atgyweiriadau brys i dai Cyngor a gwblhawyd o fewn 24 awr
- Cyflymder prosesu hawliadau am fudd-dâl tai a threth y cyngor ar gyfer newidiadau o ran amgylchiadau
- Cywirdeb prosesu budd-daliadau tai a threth y cyngor
- Mae nifer y digwyddiadau hiliol yn isel
- Mae nifer y damweiniau ffordd lle y mae beicwyr a beicwyr modur yn cael eu lladd, eu hanafu'n ddifrifol neu eu hanafu ychydig yn isel, ac mae marwolaethau ac anafiadau difrifol i gerddwyr ychydig y tu ôl i'r chwartel uchaf yn unig

Mae'n bwysig iawn bod yr Awdurdod yn gwella ei berfformiad o flwyddyn i flwyddyn. Pan fyddwn yn gallu cymharu â'r flwyddyn ddiweddaf ar sail "tebyg am debyg", mae 54% o'r mesurau perfformiad wedi dangos gwelliannau o ran gwasanaethau, tra bo 12% wedi aros tua'r un peth.

Mae detholiad o feysydd a wnaeth gynnydd da yn cynnwys:

- Bodlonrwydd ar safon gwasanaethau
- Cyflymder talu anfonebau
- Sgôr pwyntiau TGAU neu GNVQ plant 15-16 oed mewn ysgolion ar gyfartaledd
- Disgyblion sy'n cyflawni lefel 4 neu'n uwch mewn profion Saesneg, Cymraeg (iaith gyntaf) neu Wyddoniaeth yng Nghyfnod Allweddol 2
- Maint dosbarthiadau blwyddyn 3 i flwyddyn 6 mewn ysgolion cynradd
- Effeithlonrwydd ynni tai Cyngor
- Canran y gwastraff a ailgylchir
- Nifer y croesfannau cerddwyr sydd â chyfleusterau ar gyfer pobl anabl
- Lleihau troseddau sy'n ymwneud â cherbydau
- Nifer y meysydd parcio a gynhelir gan y Cyngor sydd â statws Maes Parcio Diogel
- Ansawdd aer
- Canran y gwasanaethau a gyflwynir yn electronig

Mae gweddill y ddogfen hon yn disgrifio'r gwelliannau pellach sydd wedi'u cynllunio. Nid yw'r Cyngor yn hunanfodlon o ran ei berfformiad ac mae'n cydnabod pwysigrwydd gwelliant parhaus. Hyd yn oed pan fyddwn yn Gyngor sy'n perfformio ymhlith y gorau, byddwn yn parhau i ymdrechu i fod hyd yn oed yn well.



# GWELLA GWASANAETHAU – YR HYN Y BYDDWN YN EI WNEUD

## Perfformiad.Gorau@Abertawe

Mae Rheoli Perfformiad wrth wraidd unrhyw agenda gwella perfformiad.

Yn ystod y 2 flynedd diwethaf mae'r Cyngor wedi ymgymryd â sawl cam i wella'r ffordd y mae'n rheoli perfformiad gan gynnwys datblygu'r Cynllun Corfforaethol, Contractau Cyflwyno Adrannol a Chynlluniau Gweithredu Gwasanaeth ynghyd â systemau ar gyfer monitro a gwerthuso perfformiad.

Ond mae'r Cyngor hwn yn cydnabod bod angen gwneud llawer mwy i reoli a gwella perfformiad ar draws pob maes cyflwyno gwasanaethau. Er mwyn cyflawni hyn mae'r Cyngor wedi cyflwyno Perfformiad.Gorau@Abertawe sy'n cynnwys tair nod glir:

- ***Cyflawni perfformiad yn y chwartel uchaf erbyn 2007 – mae hyn yn golygu sicrhau bod Abertawe ymhlith y cynghorau sy'n perfformio orau yn y DU.***
- ***Cyflwyno gwelliannau fesul cam er mwyn sicrhau bodlonrwydd cwsmeriaid trwy wella mynediad i wasanaethau, cael pethau'n iawn y tro cyntaf a sicrhau mai'r cwsmer yw ein prif ffocws bob amser.***
- ***Gweithredu fel "Un Cyngor" ym mhopeth rydym yn ei wneud.***

Yn fyr, byddwn yn cyflawni hyn trwy:

- Gael y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael i'r Cyngor – sy'n golygu'n bennaf y cyllid rydym yn ei dderbyn o lywodraeth ac incwm, ar yr un pryd â sicrhau bod ein gweithwyr yn y lle cywir ar yr amser cywir ac yn darparu'r gwasanaethau cywir.
- Sicrhau bod galluoedd y Cyngor yn gweithredu'n effeithlon. Mae hyn yn golygu gwneud y defnydd gorau o'r dechnoleg sydd ar gael i ni, gan sicrhau bod y gweithwyr gorau'n cael eu recriwtio a'u hyfforddi a bod y perfformiad ar draws yr holl wasanaethau'n cael ei reoli'n effeithlon.
- Canolbwyntio ar ganlyniadau gyda phwyslais arbennig ar anghenion ein holl gwsmeriaid.

Mae tîm o bersonél allweddol o bob rhan o'r awdurdod, a adwaenir fel Pencampwyr Arweiniol, eisoes wedi cael ei ffurfio. Eu rôl yw gweithio gyda'r Prif Weithredwr i ddatblygu Perfformiad.Gorau@Abertawe.

## Rhaglen Gwella Cymru

Mae Rhaglen Gwella Cymru wrth wraidd yr agenda gwella. Mae'n disodli Gwerth Gorau yng Nghymru ac mae'n ofynnol i bob Awdurdod gynnal Dadansoddiad ac Asesiad Risg Awdurdod Cyfan, ac adrodd am y canlyniadau yng Nghynllun Gwella 2003/4.

Asesiad cynhwysfawr o sut y mae'r awdurdod yn delio â rheolaeth strategol a gweithredol ei swyddogaethau corfforaethol a gwasanaethau yw'r Dadansoddiad Awdurdod Cyfan, sy'n cael ei gynnal unwaith bob 5 mlynedd. Arweinir y Dadansoddiad Awdurdod Cyfan gan yr awdurdod lleol unigol, ond mae angen iddynt ddefnyddio sylfaen eang o dystiolaeth i fwydo i'w dadansoddiad.

Mae archwilwyr ac arolygwyr yn cyfrannu at y broses hon, gan gasglu ynghyd data o ffynonellau amrywiol gan gynnwys



dangosyddion perfformiad, adroddiadau arolygu, adroddiadau archwiliadau, y llywodraeth ganolog, y Cynulliad Cenedlaethol ac arolygon barn gyhoeddus.

Bydd Asesiad Risg yn codi yn sgîl y Dadansoddiad Awdurdod Cyfan, a fydd yn cael ei rannu a'i ddatblygu ar y cyd gan yr awdurdod a'i archwilwyr a'i arolygwyr.

Diben cynnal Dadansoddiad Awdurdod Cyfan ac Asesiad Risg yw nodi'r meysydd y mae angen i'r awdurdod ganolbwyntio arnynt fwyaf er mwyn cyflawni gwelliannau, ac mae'n ffurfio'r sail ar gyfer Cynllun Gwella blynyddol yr awdurdod. Mae'r Cynllun Gwella'n nodi'r camau y mae'r awdurdod yn bwriadu eu gweithredu er mwyn gwella ei berfformiad o ganlyniad i'r broses.

Mae'r meysydd a nodwyd ar gyfer gwelliant corfforaethol yn cynnwys cyflwyno gwasanaethau'n electronig, canolbwyntio ar gwsmeriaid, caffael, rheoli perfformiad a chynllunio cymunedol a chorfforaethol. Mae mwy o fanylion am bob un o'r gwelliannau hyn isod.

## Cyflwyno Gwasanaethau'n Electronig

Mae'r Llywodraeth Ganolog a Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol yn ymroddedig i'r cysyniad o ehangu'r llwybrau sydd gan ddefnyddwyr i gael mynediad i wasanaethau'r Cyngor, y cyfeirir ato'n aml fel "e-lywodraeth". Fe allai hyn fod dros y ffôn, siopau dan yr unto, y rhyngrwyd, estyn oriau agor, ac yn y blaen. Nid yw'r Llywodraeth yn gorfodi'r fethodoleg i'w defnyddio, ond maent wedi nodi'n glir eu gofynion ar gyfer ehangu mynediad i wasanaethau.

Bydd y Cyngor yn datblygu'r gwaith hwn dan y pennawd Gwasanaeth@Abertawe.

Datblygu "Porth Abertawe" yw'r allwedd i lwyddiant y rhaglen hon. Yn ei hanfod, fe fydd yn sicrhau bod defnyddwyr yn cael mynediad i wasanaethau trwy ddull sy'n gyson beth bynnag fo'r gwasanaeth. Er mwyn cyflawni hyn fe fydd:

- **Un rhif ffôn cyswllt** ar gyfer pob ymholiad a fydd yn galluogi cwsmeriaid i gael mynediad i Ganolfan Alwadau ganolog lle y bydd staff hyfforddedig, gwybodus gyda chefnogaeth yn delio â'u hymholiad.
- **Canolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid Ganolog** yn y Ddinas lle y gall cwsmeriaid ddelio â sawl gofyniad am wasanaethau mewn un ymweliad.
- **Canolfannau Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymunedol** ar gyfer cwsmeriaid nad ydynt yn gallu teithio i'r swyddfa yn y Ddinas. Gall cwsmeriaid ymweld ag **unrhyw un** ohonynt a derbyn yr un lefel o fynediad i wasanaethau.
- **Estyn yr oriau gwasanaeth.** Mynediad trwy fannau y mae staff yn gweithio ynddynt gyda'r hwyr ac ar ddydd Sadwrn.
- **Mynediad trwy'r Rhyngrwyd.** I gwsmeriaid sydd am chwilio am wybodaeth, gofyn am wasanaethau, archebu lle, prynu tocynnau etc, bydd y rhyngrwyd yn rhoi mynediad i rai gwasanaethau 24 awr y dydd, 7 niwrnod yr wythnos.

Mae hwn yn brosiect uchelgeisiol i'r Cyngor. Bydd angen i ni weithio gyda phartneriaid o'r sector preifat ac o bosib y sector cyhoeddus i gyflwyno'r newid enfawr hwn i'r ffordd y gall cwsmeriaid gael mynediad i wasanaethau'r Cyngor. Erbyn Tachwedd 2003, bydd y Cyngor wedi datblygu cynllun y prosiect ymhellach i weithredu'r newid hwn ac wedi dechrau nodi sefydliadau partner i weithio gyda nhw.



## Ffocws ar Gwsmeriaid

Fel a ddisgrifiwyd dan Gyflwyno Gwasanaethau'n Electronig, mae'r Awdurdod eisoes yn datblygu cynlluniau i wella mynediad cwsmeriaid i wasanaethau. Yn ogystal â hyn, bydd camau'n cael eu cymryd i wella cydlynu ymgynghori â chwsmeriaid a rhoi adborth am y canlyniadau i'r rheiny yr ymgynghorir â nhw *(Mawrth 2004).*

Bydd dulliau ar gyfer ymgynghori â chymunedau anodd eu cyrraedd fel grwpiau lleiafrifoedd ethnig a phobl ifanc yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau ein bod yn delio â materion sy'n ymwneud â'r cyfryw gymunedau a bod blaenoriaethau corfforaethol a gwasanaeth yn seiliedig ar amrywiaeth eang o safbwyntiau (*Rhag 2003).*

Y nod yw i'r awdurdod gael gwell dealltwriaeth a ffocws cliriach o'r hyn sy'n bwysig i'w gwsmeriaid. Bydd methodoleg hefyd yn cael ei datblygu i fwydo blaenoriaethau cwsmeriaid i ddyrannu adnoddau a blaenoriaethu'r gyllideb *(Mawrth 2004).*

## Caffael

Mae Uned Caffael Strategol newydd wedi cael ei sefydlu (Mawrth 2003) sy'n dechrau gweithredu amrywiaeth eang o gamau gan gynnwys:

- Cynhyrchu systemau modern, canllawiau a ffynonellau gwybodaeth ynglŷn â chaffael.
- Nodi pecynnau meddalwedd caffael addas.
- Parhau ag arbrofion e-gaffael.
- Darparu gweithdrefnau iaith syml i'r gweithwyr eu dilyn.
- Sefydlu rhaglenni hyfforddiant priodol.
- Sefydlu a monitro mesurau perfformiad caffael.

Bydd yr Uned Caffael Strategol yn gweithio gyda Chynghorwyr ac uwch reolwyr er mwyn sicrhau bod gwerth am arian yn cael ei gyflawni ar gyfer yr holl nwyddau a'r gwasanaethau sy'n cael eu caffael.

## Rheoli Perfformiad

Fel a ddisgrifiwyd ar ddechrau'r ddogfen hon, bydd rhaglen a gynlluniwyd o'r teitl Perfformiad.Gorau@Abertawe yn cael ei chyflwyno. Lluniwyd y rhaglen i ddatblygu'r awdurdod lleol a chyrraedd y "chwartel uchaf" erbyn 2007 (ymhlith chwarter uchaf yr holl awdurdodau lleol sy'n perfformio orau).

Bydd systemau rheoli perfformiad ac ariannol, gan ddatblygu gwaith y llynedd, yn cael eu gweithredu er mwyn ymgorffori rheoli perfformiad ar draws y sefydliad. Er mwyn cyflymu'r broses bydd gwybodaeth am berfformiad yn cael ei hadrodd a'i monitro'n rheolaidd a bydd mesurau'n cael eu rhoi ar waith i ddelio ag unrhyw feysydd lle mae gwendidau ac i ddatblygu cryfderau *(dechreuwyd yn Ebrill 2003).*

Bydd rheoli perfformiad yn cael ei integreiddio'n llawn gydag amcanion corfforaethol a gwasanaeth, cynllunio gwasanaeth a busnes, pennu'r gyllideb a gwerthuso staff. Yn ogystal â hyn, bydd nifer cynhwysfawr o ddangosyddion perfformiad yn cael eu datblygu er mwyn



ein galluogi i fesur, monitro ac adolygu perfformiad a throsglwyddo polisïau i amcanion CAMPUS *(ar hyd 2003/4).*

Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod goblygiadau adnoddau yn cael eu hystyried a'u nodi fel rhan o gynlluniau gweithredu unrhyw wasanaeth a bydd mesurau ar waith i werthuso canlyniadau'r camau a gymerwyd.

## Cynllun Cymunedol ar gyfer Abertawe

Bydd y Cynllun Cymunedol yn amlinellu gweledigaeth i Abertawe ar gyfer y 10 – 15 mlynedd nesaf. Bydd y cynllun yn canolbwyntio ar les cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cyffredinol holl ddinasyddion Abertawe.

Y Cyngor sy'n gyfrifol am hwyluso datblygu a gweithredu'r cynllun, ond bydd y broses cynllunio cymunedol yn digwydd mewn partneriaeth â phob asiantaeth berthnasol a chymuned leol. Mae'n rhaid cynhyrchu'r cynllun cyn Mai 2004 er mwyn cyrraedd terfyn amser y Cynulliad.

Yn ystod Chwefror 2003, cytunwyd ar "Bywyd Braf, Caru Abertawe – Fframwaith Gweledigaeth ar gyfer y Dyfodol" fel Cynllun Cymunedol drafft Abertawe. Mae'n nodi'r weledigaeth ganlynol:

> ***"Bydd Abertawe yn lle bywiog, teg a phositif sy'n adeiladu ar ei hanes diwylliannol a'r amgylchedd naturiol er mwyn hybu a datblygu cyfleoedd i wella bywydau pawb sy'n byw ac yn gweithio yn Abertawe a'r rheiny sy'n ymweld ag Abertawe."***

Proses barhaus yw datblygu'r Cynllun Cymunedol. Yn ystod 2004, bydd y Cyngor a'i bartneriaid yn parhau i ymgynghori â chymunedau, gan nodi lle nad yw eu hanghenion yn cael eu diwallu a chychwyn camau gweithredu priodol. Fe fydd hyn yn cynnwys gosod blaenoriaethau clir i ddiwallu anghenion a sicrhau'r defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

## Cynllunio Corfforaethol

Yn yr un modd ag unrhyw sefydliad mawr, yn ogystal â chynllunio sut y bydd yn cyflwyno gwasanaethau mae'n rhaid i'r Cyngor gynllunio sut y bydd yn ymdopi â newidiadau i ddeddfwriaeth, cyllid a gofynion eraill y gellid eu gorfodi arno. Mae Cynllunio Corfforaethol yn hollbwysig er mwyn gweithredu fel "un Cyngor".

Ar hyd 2003/04, bydd y broses Cynllunio Corfforaethol yn cael ei diwygio er mwyn sicrhau'r budd mwyaf posib o'r adnoddau a'r cyfleoedd sydd ar gael i'r Cyngor. Yn fyr, cylch o Gynllunio, Monitro, Adolygu a Chynllunio unwaith eto yw Cynllunio Corfforaethol. Mae prif elfennau'r broses hon yn cynnwys pennu Nodau ac Amcanion, rheoli perfformiad yn ôl y rhain a'r trefniadau ariannol sy'n angenrheidiol er mwyn cyflwyno Nodau ac Amcanion y Cyngor. Mae pob un o'r elfennau hyn yn gyd-ddibynnol.

## Ein Nodau Corfforaethol

Yn unol â chyflwyno Perfformiad.Gorau@Abertawe, bydd y nodau Corfforaethol yn cael eu hailasesu yn ystod y misoedd nesaf er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i adlewyrchu blaenoriaethau cwsmeriaid a bydd targedau mwy heriol yn cael eu pennu lle y bo'n briodol er mwyn parhau i ddatblygu gwella perfformiad. Dyma ddiweddariad o'r camau neu'r gwelliannau a gyflawnwyd yn ôl ein nodau Corfforaethol presennol.



NOD 1

## Nod Abertawe yw darparu gwasanaethau ardderchog a hygyrch i'n cwsmeriaid. Gair Allweddol: Cwsmeriaid

### Yr hyn rydym wedi'i wneud

- Datblygwyd Cynllun Gwella Gwasanaeth ar gyfer casglu Treth y Cyngor, a chyflwynwyd mynediad i'r Rhyngrwyd a gwell cyngor a ffurflenni.
- Cynhyrchwyd llawlyfr tenantiaid newydd mewn sawl fformat, gan gynnwys braille ac ar y we. Bydd y llawlyfr yn cael ei anfon at bob tenant erbyn diwedd Mehefin, yn ogystal â mynd yn fyw ar y Rhyngrwyd erbyn yr un dyddiad.
- Defnyddiwyd 1514 o leoedd hyfforddi gan y staff mewn gwahanol agweddau ar Wasanaethau Cwsmeriaid, gan amrywio o NVQs Gwasanaeth Cwsmeriaid i ymwybyddiaeth hiliol ac anableddau.
- Cynhaliwyd sawl adolygiad gwasanaeth i wella'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu cyflwyno.
- Trwy ymgynghori â grwpiau pobl anabl mae'r Cyngor wedi nodi bylchau o ran mynediad i wasanaethau ar gyfer pobl anabl ac wedi cynllunio rhaglen wella.
- Cyflwynwyd ffurflen gais newydd hawdd ei defnyddio ar gyfer budd-daliadau Tai a Threth y Cyngor ac mae ffurflenni y gellir eu lawrlwytho ar gael ar y Rhyngrwyd. Mae gwelliannau pellach yn cynnwys cynnig gwasanaeth ymweld ar gyfer pobl â nam symudedd, a gwell gweithdrefnau cadarnhau.

### Canlyniadau a gyflawnwyd

- Mae % y dinasyddion sy'n fodlon ar safon gyffredinol y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod wedi cynyddu o 56% i 76%.
- Mae % y cysylltiadau â'r cyhoedd lle gellir cyflwyno gwasanaethau'n electronig trwy ddefnyddio'r rhyngrwyd neu ddulliau dibapur eraill wedi cynyddu o 17% i 30.6%.
- Mae'r amser a gymerir i brosesu hawliadau newydd am Fudd-dâl Tai neu Dreth y Cyngor wedi cynyddu o 41 diwrnod i 50 diwrnod ar gyfartaledd, o ganlyniad i sawl newid arwyddocaol a fu'n tarfu ar yr amserau prosesu a'u hymestyn. Mae'n debygol y bydd amserau prosesu arafach yn parhau trwy 2003/4 wrth i fwy o newidiadau gael eu cyflwyno.
- Bydd % y bobl a gyflwynodd gŵyn a oedd yn fodlon ar y ffordd y deliwyd â'r mater yn cael ei mesur yn hwyrach yn 2003.

### Pennu ein Targedau ar gyfer Gwella

Yn unol â chyflwyno Perfformiad.Gorau@Abertawe, bydd y nodau Corfforaethol yn cael eu hailasesu yn ystod y misoedd nesaf er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i adlewyrchu blaenoriaethau cwsmeriaid a bydd targedau mwy heriol yn cael eu gosod lle y bo'n briodol er mwyn parhau i ddatblygu gwell perfformiad.



| | DANGOSYDDION | PERFFORMIAD CYFREDOL | TARGED BLAENOROL | TARGED DIWYGIEDIG |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Canran y dinasyddion sy'n fodlon ar safon gyffredinol y gwasanaethau a ddarperir gan yr awdurdod | 76% | 66% erbyn 2003/4 | 80% erbyn 2003/4 |
| 2 | Canran y cysylltiadau â'r cyhoedd, yn ôl math, lle gellir cyflwyno gwasanaethau'n electronig trwy ddefnyddio protocoliau'r rhyngrwyd neu ddulliau dibapur eraill | 30.6% | 100% erbyn 2005 | 50% erbyn 2003/4 |
| 3 | Canran y bobl a gyflwynodd gŵyn a oedd yn fodlon ar y ffordd y deliwyd â'r mater | Heb ei fesur eto | 70% erbyn 2005 | 70% erbyn 2005 |
| 4 | Canran adeiladau'r Cyngor sy'n agored i'r cyhoedd y gall pobl anabl gael mynediad iddynt | 10% | 30% erbyn 2002/3<br>50% erbyn 2003/4 | 30% erbyn 2003/4 |
| 5 | Yr amser a gymerir i brosesu hawliadau newydd am Fudd-dâl Tai neu Dreth y Cyngor ar gyfartaledd | 50 diwrnod | 40 diwrnod erbyn 2002/3<br>30 diwrnod erbyn 2003/4 | 53 diwrnod erbyn 2003/4 |

**Camau Gweithredu**

- Bydd mynediad cwsmeriaid i wasanaethau yn cael ei wella trwy ddatblygu porth Abertawe, dan y faner "Gwasanaeth@Abertawe"
- Adolygu dulliau ymgynghori â chymunedau anodd eu cyrraedd
- Mae'r aelodau'n ymgymryd ag ymchwiliad manwl o sut rydym yn delio â Chwynion Corfforaethol



NOD 2

## Nod Abertawe yw cael ei chydnabod fel lle sydd ag amgylchedd glân a deniadol. Gair Allweddol: Glendid

### Yr hyn rydym wedi ei wneud

- Gweithredwyd tair ymgyrch gyhoeddusrwydd a dargedwyd ar wella glendid strydoedd yn Wardiau Canol y Ddinas, Brynmill ac Uplands ac ardal Blaenymaes.
- Yn sgîl polisi o weithredu gorfodaeth yn erbyn y rheiny sy’n taflu sbwriel rhoddwyd 270 o hysbysiadau a chafwyd 17 erlyniad llwyddiannus.
- Cyflwynwyd menter i wella rheoli gwastraff masnachol mewn ardaloedd Canol y Ddinas ar gyfer cerddwyr, gyda chasgliadau sbwriel "mewn pryd" a chael gwared â biniau masnach hyll.
- Trefnwyd rhaglen wybodaeth a chynyddu ymwybyddiaeth ynglŷn â’r trefniadau casglu sbwriel yn Brynmill ac Uplands gan ddefnyddio posteri a thaflenni. Cynhaliwyd ymgyrch fawr cyn y Nadolig er mwyn rhoi gwybod i’r trigolion am yr amserau casglu diwygiedig gan ddefnyddio’r wasg leol, radio, posteri ac arddangosiadau ar gerbydau.
- Parhaodd ymgyrch cyhoeddusrwydd ac ymwybyddiaeth Abertawe yn ei Blodau i ddenu mwy o gyfranogwyr ymhlith trigolion a busnesau.
- Gweithredwyd polisi gorfodaeth ar gyfer troseddau sy’n gysylltiedig â chŵn trwy roi Hysbysiadau o Ddirwy Benodol.
- Parhaodd rhaglenni adnewyddu tai preifat, grantiau cymorth atgyweirio a gorfodaeth statudol gyda lefel debyg o gyllid â’r flwyddyn flaenorol.

### Canlyniadau a gyflawnwyd

- Mae % y bobl sy’n fodlon ar safonau glendid mewn ardaloedd cyhoeddus yn y Ddinas wedi gostwng o 80% i 63%. Ond newidiwyd sail yr arolwg o ymwelwyr i drigolion oherwydd teimlwyd y byddai hynny’n fwy ystyrlon.
- Gostyngodd nifer y casgliadau sbwriel a gollwyd fesul 100,000 o gasgliadau o wastraff cartref o 60.3 i 53.
- Cynyddodd nifer y cyfranogwyr, preifat a busnes, ym menter Abertawe yn ei Blodau gan 18%.
- Nifer yr hysbysiadau gorfodi/erlyniadau mewn perthynas â throseddau baw cŵn oedd 52, a oedd yn fwy na’r targed o 40.
- Cynyddodd cyfran y tai anaddas yn y sector preifat a wnaed yn addas neu a ddymchwelwyd o 6.4% i 8.4%, sy’n cynrychioli un o’r perfformiadau gorau ar gyfer Awdurdodau Unedol.
- Cyflawnodd cyfran y tai anaddas yn y sector preifat a ddychwelodd i breswyliad darged eleni o 2%.



| | Dangosyddion | Perfformiad Cyfredol | Targed Blaenorol | Targed Diwygiedig |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Canran y bobl sy'n fodlon ar safonau glendid mewn ardaloedd cyhoeddus yn y Ddinas | 58% | 90% erbyn 2002/3 | 60% erbyn 2003/4 |
| 2 | Nifer y casgliadau a gollwyd fesul 100,000 o gasgliadau o wastraff cartref | 53 | 60 erbyn 2002/3 | 55 |
| 3 | Canran y cynnydd o ran nifer y cyfranogwyr, preifat a busnes, ym menter Abertawe yn ei Blodau | 18% | 5% erbyn 2002/3 | Cynnydd pellach o 3% erbyn 2003/4 |
| 4 | Nifer yr hysbysiadau gorfodi/erlyniadau mewn perthynas â throseddau baw cŵn | 52 | 40 erbyn 2002/3 | 62 erbyn 2003/4 |
| 5 | Cyfran y tai anaddas yn y sector preifat<br>a) a wnaed yn addas neu a ddymchwelwyd<br>b) a ddychwelodd i breswyliad os oeddent yn wag am fwy na 6 mis | a) 8.4%<br>b) 2.0% | a) 7.0%<br>b) 2.0%<br>erbyn 2002/3 | a) 7.6%<br>b) 2.5%<br>erbyn 2003/4 |

## Camau Gweithredu

- Parhau â'r adolygiad llawn o reoli gwastraff.
- Parhau i weithio gyda'r gymuned i gynyddu ymwybyddiaeth a glanhau strydoedd mwyaf anniben y ddinas.
- Parhau i weithio gyda gwirfoddolwyr i lanhau Afon Tawe a gwaredu cerbydau wedi'u gadael, troliau a sbwriel o'r ddyfrffordd.
- Uno â'r wasg leol ac Asiantaeth yr Amgylchedd i leihau tipio heb ganiatâd yn yr ardal.
- Dymchwel 130 o gartrefi i wneud lle i adeiladu tai newydd fel rhan o gynllun £7.3m.



NOD 3

**Nod Abertawe yw diogelu a hybu iechyd a lles ei holl drigolion, gan gynnwys pobl ddiamddiffyn, mewn cymunedau diogel a chefnogol.**
Geiriau Allweddol: **Cymunedau / Diogelu**

## Yr hyn rydym wedi ei wneud

- Datblygwyd strategaeth lleihau troseddau a dechreuwyd gweithredu cynllun gweithredu lleol.
- Gweithredwyd rhaglen gylchredol ar gyfer newid lampau stryd.
- Cynyddwyd y croesfannau cerddwyr gyda chyfleusterau ar gyfer pobl anabl o 69% i 81%. Y targed gwreiddiol erbyn 2004 oedd 80%, ond cynyddwyd hwn bellach i 85%.
- Cynhaliwyd ymgyrch i gynyddu ymwybyddiaeth o Uned Cefnogi'r Gymdogaeth.
- Adleolwyd yr ystafell reoli CCTV i Townhill, a bydd 2 gamera ychwanegol yn cael eu gosod yng Nghanol y Ddinas yn ystod yr haf.
- Gwellwyd 5 maes parcio dan berchnogaeth y Cyngor gan gyflawni Gwobr Maes Parcio Diogel.
- Gweithredwyd Strategaeth Gofal Iechyd-Cymdeithasol ar y Cyd "Hyrwyddo Annibyniaeth" er mwyn gwella amrywiaeth yr opsiynau a'r dewisiadau sydd ar gael i bobl hŷn.
- Comisiynwyd gwasanaethau newydd ar gyfer pobl hŷn, fel yr Uned Ailsefydlu Preswyl yn Earlsmoor a datblygwyd fframwaith ar gyfer comisiynu gwasanaethau newydd yn y dyfodol ar gyfer pobl hŷn.
- Crewyd 12 lleoliad maeth newydd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.
- Arbrofwyd gyda Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol ar gyfer gweithwyr y Cyngor.
- Agorwyd Pwll Cenedlaethol Cymru.

## Canlyniadau a gyflawnwyd

- Gostyngodd % y trigolion a ddywedodd eu bod yn teimlo'n "eithaf diogel" neu'n "ddiogel iawn" yn eu cymdogaethau o 77% i 73%, ac yng nghanol y ddinas cynyddodd o 28% i 29%.
- Mae % y meysydd parcio â statws Maes Parcio Diogel wedi cynyddu o 2.3% i 11.1%.
- Mae nifer y bobl hŷn (65 oed neu drosodd) sy'n cael cymorth i fyw gartref fesul 1000 o'r boblogaeth (65 oed neu drosodd) wedi gostwng o 169.45 i 131.58, sy'n dal i gynrychioli perfformiad yn 25% uchaf Awdurdodau Unedol.
- Mae % y plant sy'n derbyn gofal a gafodd fwy na dau leoliad yn ystod y flwyddyn wedi aros yn gymharol sefydlog ar 8.08%, sydd yn llawer is na tharged y Cynulliad o lai na 10%, ac ymhlith y perfformiadau gorau ar gyfer Awdurdodau Unedol.
- Mae cyfanswm nifer y bobl sy'n defnyddio gweithgareddau ffordd iach o fyw a ddarperir gan yr Awdurdod wedi gostwng o 4.8 miliwn i 4.5 miliwn. Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i gau canolfannau hamdden cymunedol Treforys a Chefn Hengoed dros dro ar gyfer gwaith adnewyddu, cau pwll nofio San Helen cyn agor Pwll Cenedlaethol Cymru, a chwtogi'r cyfleusterau yn Stadiwm y Morfa.



| | DANGOSYDDION | PERFFORMIAD CYFREDOL | TARGED BLAENOROL | TARGED DIWYGIEDIG |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Canran y trigolion a ddywedodd eu bod yn teimlo'n "eithaf diogel" neu'n "ddiogel iawn" yn y nos:<br>a) yn eu cymdogaeth eu hunain<br>b) yng nghanol y ddinas | a) 73%<br>b) 29% | a) 80%<br>b) 40%<br>erbyn 2003/4 | a) 80%<br>b) 40%<br>erbyn 2003/4 |
| 2 | Canran y meysydd parcio sydd â statws Maes Parcio Diogel dan y Faner 'Diogel drwy Ddyluniad'. | 11.1% | 13.6% erbyn 2002/3 | 13.3% erbyn 2003/4 |
| 3 | Nifer y bobl hŷn (65 oed neu drosodd) sy'n cael cymorth i fyw gartref fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu drosodd. | 131.58 | 169.45 erbyn 2002/3 | 135 erbyn 2003/4 |
| 4 | Sicrhau bod canran y plant sy'n derbyn gofal a gafodd fwy na dau leoliad yn ystod y flwyddyn yn is na'r targed o 10% a ddiffiniwyd gan LlCC | 8.08% | 7% erbyn 2002/3 | 8% erbyn 2003/4 |
| 5 | Cyfanswm nifer y bobl sy'n defnyddio gweithgareddau ffordd iach o fyw a ddarperir gan yr Awdurdod. | 4.5 miliwn | 4.9 miliwn | 4.5 miliwn erbyn 2003/4 |

**Camau Gweithredu**

- Cyflwyno Cerdyn 'All Action' ar gyfer Canolfannau Hamdden a gweithredu menter 'Nofio Am Ddim' y Cynulliad Cenedlaethol yn llawn ym mhob pwll nofio.
- Nodi pob maes parcio sy'n cael ei reoli gan y cyngor a datblygu safon gyffredin ar gyfer y ddarpariaeth barcio.
- Cyflwyno timau Desg Gymorth / Monitro ac Adolygu ar gyfer gwasanaethau i bobl hŷn a phobl anabl.
- Datblygu tîm / cronfa o weithwyr i gefnogi lleoliadau maeth yn ystod adegau anodd.
- Comisiynu 21 uned CCTV preswyl newydd.



NOD 4

## Nod Abertawe yw cynnal a diogelu cenedlaethau’r dyfodol.

Gair Allweddol: **Cynaliadwyedd**

### Yr hyn rydym wedi ei wneud

- Cynyddwyd nifer y casgliadau ailgylchu ymyl y ffordd o 28,000 i 48,000 o gartrefi.
- Cytunwyd i leoli 5 canolfan ailgylchu fach ym meysydd parcio tafarndai.
- Darparwyd cyfleusterau ailgylchu cardbord mewn Safleoedd Cyfleusterau Dinesig, gyda chynlluniau i gyflwyno cyfleusterau ailgylchu ar gyfer gwastraff cartref peryglus yn ystod y misoedd nesaf.
- Cyflwynwyd ceisiadau i’r Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer Llwybrau Diogel i’r Ysgol ar gyfer Ysgol Iau Brynhyfryd ac Ysgol Gynradd Pennard.
- Penodwyd Cydlynydd Diogelwch Plant sy’n Cerdded er mwyn datblygu sgiliau ymwybyddiaeth o ddiogelwch ffordd ymhlith plant ifanc.
- Ymgymerwyd ag arolwg o stoc tai’r Cyngor er mwyn deall gofynion cynnal a chadw ac effeithlonrwydd ynni y dyfodol.
- Lluniwyd set ddrafft o ddangosyddion sylfaenol o fewn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth.
- Cynyddwyd nifer cerbydau’r Cyngor sy’n defnyddio mathau "gwyrdd" o danwydd gan 10%, a daeth yn ail yn y Gwobrau Cerbydau Gwyrdd Cenedlaethol.
- Plannwyd llawer mwy na 200 o goed newydd.

### Canlyniadau a gyflawnwyd

- Cynyddodd % y gwastraff bwrdeistrefol a ailgylchwyd ac a gompostiwyd o 10.4% i 15.5%. Mae’r lefel perfformiad yma’n golygu mai Abertawe yw un o’r Awdurdodau trefol gorau yng Nghymru.
- Cynyddodd nifer y bobl ifanc a oedd yn teithio i/o ysgolion trwy feicio neu gerdded fel rhan o’r prosiect Llwybrau Diogel i’r Ysgol o 741 i 1051.
- Cynyddodd effeithlonrwydd ynni tai sydd dan berchnogaeth y Cyngor (Graddfa SAP) o 38 i 54.
- Lluniwyd Strategaeth a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a bydd yn cael ei lansio yn hwyrach eleni.
- Cynyddodd cydymffurfiaeth ag amcanion Ansawdd Aer o 71% i 85%. Ni chyflawnwyd 100% oherwydd methwyd â chyflawni un amcan cenedlaethol ar gyfer Nitrogen Deuocsid.



| | Dangosyddion | Perfformiad Cyfredol | Targed Blaenorol | Targed Diwygiedig |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Canran y gwastraff bwrdeistrefol a gafodd<br>a) ei ailgylchu neu<br>b) ei gompostio | a) 9.2%<br>b) 6.3% | a) 15%<br>b) 8%<br>erbyn 2004 | a) 10.5%<br>b) 7.0%<br>erbyn 2003/4 |
| 2 | Cynnydd o ran nifer y bobl ifanc a oedd yn teithio i/o ysgolion trwy gerdded neu feicio fel rhan o'r Prosiect Llwybrau Diogel i'r Ysgol | 1051 | 841 erbyn 2002/3 | 1151 erbyn 2003/4 |
| 3 | Cynnydd o ran effeithlonrwydd ynni tai sydd dan berchnogaeth y Cyngor (Graddfa SAP**) | 54 | 43 erbyn 2002/3<br>46 erbyn 2003/4 | 55 erbyn 2003/4 |
| 4 | Cynhyrchu Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth | Wedi'i lunio | Set o ddangosyddion sylfaen erbyn 2002/3 | Set o ddangosyddion sylfaen erbyn 2003/4 |
| 5 | Cydymffurfio â'r holl Amcanion Ansawdd Aer a osodwyd yn genedlaethol er mwyn diogelu iechyd a'r amgylchedd yn Ninas a Sir Abertawe | 85% | 100% trwy gydol 2002 i 2006 | 100% erbyn 2003/4 |

## Camau Gweithredu

- Estyn y cynlluniau presennol er mwyn annog cartrefi i ailgylchu (mae Abertawe eisoes yn un o'r awdurdodau trefol sy'n perfformio orau yng Nghymru).
- Parhau i wella dulliau o fonitro data defnydd ynni ar gyfer y stoc adeiladau corfforaethol.
- Hyrwyddo'r gwasanaeth Cyngor Dylunio Ymddiriedolaeth Carbon ar gyfer effeithlonrwydd ynni o fewn prosiectau adeiladu newydd ac adnewyddu mawr.
- Gweithio tuag at safon lefel 3 y Ddraig Werdd o ran Rheolaeth Amgylcheddol ar gyfer Neuadd y Sir a Neuadd y Ddinas.
- Asesu effaith bioamrywiaeth ar gyfer pob gwasanaeth a chodi proffil y Cynllun Gweithredu Corfforaethol.
- Cyflwyno cynaliadwyedd fel maen prawf asesu ar gyfer y Cynllun Cymunedol a holl strategaethau a chynlluniau'r Cyngor.
- Arbrofi gyda phrosiect tyrbin gwynt i gynhyrchu ynni o ffynhonnell adnewyddadwy.



NOD 5

## Nod Abertawe yw parhau i ddatblygu fel Dinas a Sir o Ddysg.

Gair Allweddol: **Dysgu**

### Yr hyn rydym wedi ei wneud

- Dechreuwyd gweithio ar ddatganiad Abertawe ar gyfer Cynhwysiad a Hawl i Ddysgu.
- Darparwyd cefnogaeth ac arweiniad i ysgolion er mwyn helpu i godi safonau, fel a dystiwyd gan y Dangosyddion Pwnc Craidd:
- Cynyddodd Dangosydd Pwnc Craidd Cyfnod Allweddol 2 o 69 yn 2001 i 71 yn 2002, cynhaliwyd y Dangosydd Pwnc Craidd ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 ar 49, gyda'r nod o gyflawni 53 erbyn 2004 a chynyddodd y Dangosydd Pwnc Craidd ar gyfer "15+" o 36 yn 2001 i 37 yn 2002.
- Darparwyd cysylltiadau Rhyngrwyd band llydan ar gyfer pob ysgol uwchradd.
- Sefydlwyd grŵp AALl/Ysgolion er mwyn nodi ffyrdd blaengar o ddefnyddio TGCh i wella dysgu ac addysgu.
- Penodwyd Cydlynydd TGCh ar gyfer Addysg a Swyddog Addysg Gymunedol i weithio gydag ysgolion er mwyn datblygu'r defnydd o Ganolfannau Addysg TGCh.
- Gwellwyd cyfleoedd dysgu a hamdden ar gyfer pobl ifanc: mae tua 4000 o bobl ifanc yn defnyddio 30 man cyfarfod. Mae un prosiect ieuenctid teithiol wedi cael ei sefydlu ac mae 2 arall yn yr arfaeth.
- Cyflwynwyd cais am £1.69 miliwn i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 5 Canolfan Dysgu Cymunedol yn ysgolion Eastside.
- Cytunwyd ar Argymhelliad Blynyddol CCET ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 gydag ELWa, ac mae Cynllun Gweithredol yn cael ei ddatblygu i'w gyhoeddi yng Ngwanwyn 2003.
- Darparwyd addysg, cyngor a hyfforddiant ar gyfer dros 3600 o bobl ifanc ac oedolion trwy Hyfforddiant Cyflogaeth.

### Canlyniadau a gyflawnwyd

- Mae % yr ysglion a arolygwyd y barnwyd eu bod wedi gwneud cynnydd ers eu harolygiad diwethaf wedi cynyddu o 94% i 100%.
- Mae % y plant sy'n gadael yr ysgol yn 16 oed gyda rhyw fath o gymhwyster wedi aros yn gymharol sefydlog ar 95.6% yn 2002, er gwaethaf y cwricwlwm amgen helaeth ar gyfer plant 14-16 oed a chyfleoedd hyfforddiant cyflogaeth Ôl-16 sylweddol.
- Cynyddodd nifer y buddiolwyr a gefnogwyd gan Wasanaeth Sgiliau Abertawe fel a gynlluniwyd o 920 i 1529.
- Gostyngodd nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus gan 11.6% o 869,000 i 768,000. Mae hyn yn rhannol o ganlyniad i golli llyfrgell leol Cilâ. Ond teimlir nad yw'r dull o gasglu'r dangosydd hwn yn ddibynadwy, a bod angen ei adolygu.



| | Dangosyddion | Perfformiad Cyfredol | Targed Blaenorol | Targed Diwygiedig |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Pob ysgol a arolygwyd bob blwyddyn dan Adran 10 (Deddf Addysg 1966) y pennir eu bod wedi gwneud cynnydd ers eu harolygiad diwethaf | 100% | 100% trwy gydol 2001 i 2004 | 100% |
| 2 | Canran sy'n gadael yr ysgol gyda rhyw fath o gymhwyster cydnabyddedig yn 16 oed (arholiadau + arall) | 95.6% | 97.4% trwy gydol 2001 i 2004 | 97.3% |
| 3 | Cyfanswm nifer y buddiolwyr a gafodd eu cefnogi gan y Gwasanaeth Addysg Gymunedol trwy Wasanaeth Sgiliau Abertawe | 1529 | 1712 erbyn 2004 | 1712 |
| 4 | Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus | 768,000 | 924,000 | Diwygio'r dangosydd i fesul 1000 o'r boblogaeth |

## Camau Gweithredu

- Adolygu oriau agor llyfrgelloedd a'r goblygiadau adnoddau sy'n gysylltiedig ag estyn yr oriau.
- Gwella ansawdd y Gwasanaeth Addysg trwy sicrhau bod dulliau newydd a mesurau perfformiad yn cael eu datblygu.
- Parhau i gynhyrchu adroddiadau presenoldeb ysgol bob tymor a dadansoddi tueddiadau presenoldeb.
- Gwella cyfleusterau chwaraeon mewn 14 ysgol.
- Cynyddu cyfranogiad chwaraeon plant 7-11 oed ac 11-16 oed mewn gweithgareddau sy'n seiliedig ar glybiau a'r gymuned gan 3-5%.
- Parhau i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth.
- Darparu cefnogaeth ac arweiniad i ysgolion er mwyn helpu i godi safonau.
- Parhau i weithio gyda phartneriaid yn y Consortiwm Cymunedol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant (Ôl-16) er mwyn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer dysgu.
- Datblygu proffiliau ysgol unigol er mwyn nodi'r risgiau a'r gefnogaeth y mae eu hangen ar bob ysgol.
- Ymateb i'r materion a nodwyd gan Arolygiad ESTYN yng Ngorffennaf 2003 trwy gynhyrchu Cynllun Gweithredu.
- Adeiladu ysgol gynradd newydd yn Sgeti.



NOD 6

## Nod Abertawe yw cael ei hadnabod fel lle blaengar a ffyniannus y mae pobl yn dewis byw a gweithio ynddo ac ymweld ag ef.

Gair Allweddol: **Ffyniannus**

### Yr hyn rydym wedi ei wneud

- Gweithredwyd Cynllun Gweithredu Ardal y Strategaeth Twf Twristiaeth, gyda chyfanswm o 14 prosiect wedi'u cefnogi gan dros £1.5 miliwn o gyllid. Cynlluniau sector preifat yw 10 o'r prosiectau hyn.
- Hyrwyddwyd mewn-fuddsoddi trwy gynnal 4 digwyddiad Cyfryngu Busnes Allweddol hyd yn hyn.
- Cynorthwywyd 405 o fusnesau trwy weithgareddau penodol, fel gwefan rhyngweithiol Busnes Abertawe.
- Cynorthwywyd busnesau lleol i allforio trwy drefnu 2 Ymweliad Cyfnewid Busnes â Denmarc.
- Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Partneriaeth Canol Dinas Abertawe ar gyfer datblygu Canol Dinas cystadleuol â phroffil uchel gydag amrywiaeth eang o atyniadau.
- Datblygwyd Cynlluniau Gweithredu Cymunedau yn Gyntaf ar gyfer Townhill a Blaenymaes, i'w cwblhau erbyn Rhagfyr 2003.

### Canlyniadau a gyflawnwyd

- Gostyngodd nifer yr ymwelwyr dydd a nos â Dinas a Sir Abertawe o 3.0 miliwn i 2.9 miliwn. Ond mae hyn o ganlyniad i ddefnyddio gwahanol ragdybiaethau fel sail i'r cyfrifiad.
- Mae cyfraddau diweithdra Abertawe 0.1% yn uwch na chyfartaledd Cymru, gyda'r targed o gyflawni yr un peth â chyfartaledd Cymru neu'n is na chyfartaledd Cymru erbyn 2005.
- Mae Canol Dinas Abertawe wedi codi i safle 54 o safle 56 yng ngraddfa'r DU, fel a fesurwyd gan Fynegai Experian Vitality. Ein nod yw bod yn y 50 uchaf erbyn 2005.
- Ein nod yw sicrhau bod 2 Gynllun Gweithredu Cymunedau yn Gyntaf yn cael eu cymeradwyo gan y Cynulliad yn ystod 2003/4.



| | Dangosyddion | Perfformiad Cyfredol | Targed Blaenorol | Targed Diwygiedig |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Cynnydd o ran nifer yr ymwelwyr dydd a nos â Dinas a Sir Abertawe | 2.9 miliwn | 3.9 miliwn erbyn 2005 | 3.0 miliwn erbyn 2003/4 |
| 2 | Cyfraddau diweithdra yn Abertawe o'u cymharu â chyfartaledd Cymru | 0.1% yn uwch | Llai na neu'n hafal i gyfartaledd Cymru erbyn 2005 | Llai na neu'n hafal i gyfartaledd Cymru erbyn 2005 |
| 3 | Graddfa Canol Dinas Abertawe fel a fesurwyd gan Fynegai Experian Vitality** | 54 | Yn y 50 Uchaf erbyn 2005 | Yn y 50 Uchaf erbyn 2005 |
| 4 | Nifer y Cynlluniau Gweithredu Cymunedau yn Gyntaf a gymeradwywyd gan LlCC | 0 (cyflwynwyd 8) | 2 erbyn 2003 | 2 erbyn 2003 |

## Camau Gweithredu

- Sefydlu Rhanbarth Gwella Busnes ar gyfer Canol y Ddinas (1af yng Nghymru).
- Hyrwyddo gofal cwsmeriaid / mynediad effeithiol i wasanaethau ar gyfer ein cymunedau mwyaf difreintiedig.
- Cwblhau'r adolygiad o Wasanaethau Canol y Ddinas.
- Gwella'r cyfleoedd i fusnesau lleol gyflwyno cais am gontractau'r Awdurdod.
- Cynyddu oriau agor y Ganolfan Croeso i 7 diwrnod yr wythnos yn ystod y tymor twristiaeth brig.
- Sicrhau cyllid ar gyfer cynlluniau cefnogi tenantiaid.
- Hyfforddiant cyflogaeth i barhau i weithio mewn partneriaeth â busnesau lleol er mwyn datblygu cyfleoedd dysgu a chyflogaeth a rhoi gobaith newydd i bobl ddi-waith yn Abertawe.
- Annog a chynorthwyo cwmnïau newydd a sefydledig i gyflwyno cais am ran o'r cynllun cyllid Amcan 1 a sicrhawyd gan y Cyngor.
- Sicrhau cymorth grant ar gyfer Ardaloedd Gwella Diwydiant dynodedig Abertawe er mwyn iddynt wella ac estyn eu hadeiladau.
- Parhau i weithio tuag at greu swyddi newydd yn Abertawe.



## GWYBODAETH BELLACH NEU SYLWADAU

Os hoffech gael gwybodaeth fanylach am y dangosyddion perfformiad, cyfeiriwch at Gynllun Gwella llawn Perfformiad.Gorau@Abertawe. Gallwch gael copïau ohono o:

***Derbynfa Neuadd y Sir***

***Derbynfa Neuadd y Ddinas***

Neu gallwch weld y ddogfen ar-lein ar wefan y Cyngor:

***www.swansea.gov.uk***

**Os oes gennych unrhyw sylwadau neu ymholiadau ynglŷn â chynnwys y Cynllun Gwella hwn ysgrifennwch at:**

**Steve White**
Pennaeth Perfformiad a Chynllunio Strategol
Neuadd y Sir
Ffordd Ystumllwynarth
Abertawe
SA1 3SN

Neu gallwch e-bostio eich sylwadau a'ch ymholiadau at:

***improvement@swansea.gov.uk***



6484-03 Designprint